



UMPA
Cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr
28ain o Fehefin 2013
Ystafell Bwyllgor

Yn bresennol

Ben Meakin (BM) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Carys Thomas (CT) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwraig
Jessica Leigh (JL) – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwraig
Laura Dickens (LD) – Swyddog Cymorth Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwraig
Stephen Meachem (SM) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA
John Glasby (JG) – Prif Swyddog Gweithredol Interim UMPA
Stephen Harrison (SH) – Interim Cyllid UMPA
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau Aeoldaeth UMPA

Yn gwasanaethu yn y cyfarfod

Anmarie Evans – Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr UMPA,
Mared Ifan – Llywydd UMCA nesaf,
Grace Burton – Swyddog Addysg nesaf.

1. Ymddiheuriadau am fod yn absennol

Ioan Evans (IE) – Swyddog Gweithgareddau UMPA,
Olivia Prewett – Swyddog Gweithgareddau nesaf
a Christopher Lloyd-Jones – Ymddiriedolwr Ôl-radd UMPA.

2. Cyfranddaliad Cwmni Gwasanaethu UCM – Cynnig Prynu'n ôl

Rhoddodd SH amlinellid cryno o gynnig prynu cyfranddaliadau'n ôl gan Gwmni Gwasanaethu UCM. Cytunwyd gadael i Gwmni Gwasanaethu UCM barhau i brynu cryfranddaliadau UMPA yn ôl.

Cytunwyd - SM, LD, BM, CT, JL

3. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Ebrill 2013

Recordiwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar y 29ain o Ebrill, yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd

4. Y Cadeirydd yn rhoi briff

Croesawodd Ben bawb i'r cyfarfod a chyflwyno'r Swyddogion nesaf a oedd yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod, yn barod er mwyn cychwyn eu rolau fel ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5. Adroddiad Blynyddol y Swyddogion

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Swyddogion i'r Bwrdd eisoes. Nid oedd unrhyw gwestiwn neu ymateb i'r adroddiadau.

Nododd LD yr hoffai ddiolch i BM, CT a JL am eu holl waith caled a dymuno pob lwc iddynt yn y dyfodol. Eiliwyd hyn gan y Bwrdd.

6. Arolwg y Prif Weithredwr

Crynhodd JG ei adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol. Roedd ei adroddiad yn trafod Cyllid, y Rownd Gynllunio, y Ddawns Fai ac amcanion y Prif Weithredwr. Darparodd JG gynlluniau gweledol ar gyfer y newidiadau posibl i'r Brif Ystafell ac fe roddodd ddisgrifiad o'r cysyniadau y tu ôl iddynt hefyd.

Hysbysodd JG y grŵp eu bod yn edrych ar y posibilrwydd o newid dyddiad y Ddawns Fai yn 2014 i ddiwrnod yng nghanol yr wythnos. Cydnabuwyd bod y perfformwyr Cymraeg wedi cael ymateb da a chwestiynwyd pam nad oedd hyn wedi cael ei wneud o'r blaen. Nododd GB y byddai wedi bod yn fuddiol i'r staff petaent wedi cyfeirio myfyrwyr o Ganolfan y Celfyddydau yn ôl i'r Undeb ar ddiwedd rhai perfformiadau, gan fod nifer yn meddwl mai dyna oedd ddiwedd y noson. Nododd JL y dylai mwy o gyhoeddusrwydd wedi bod er mwyn hyrwydd'r digwyddiad. Cydnabodd JG y sylwadau hyn a dweud y bydden nhw'n adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd gan y Bwrdd bod John am wneud cynigion ar gyfer ei DPA a'u cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth.

Gweithredu - JG

Nododd GB ei bod wedi gweld cyfeiriad tuag at Swyddogion y Myfyrwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, sef awgrymiadau y byddai Swyddog Ymddiriedolwyr yn gweddu'n well. Byddai Jamie Barker yn ymchwilio i weld beth mae Undebau eraill yn ei ddefnyddio.

Gweithredu - JB

7. Adroddiad Cyllid

Rhoddodd SH grynodedeb o'i adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol. Eglurodd bod y 'Grant Bloc' 2013/14 wedi'i gymeradwyo gan Cyngor y Brifysgol am £600k. Darparodd SH ddadansoddiad o'r gyllideb ar gyfer 2013/14 a gofyn i'r Bwrdd ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cymeradwywyd - BM, CT, JL, LD, SM

Cwestiynodd SM sut ydym yn bachu masnach gan fyfyrwyr sy'n symud i gael darlithoedd ar gampws Llanbadarn. Eglurwyd ein bod ni yn ymwybodol o hyn ond ein bod ni angen arsylwi arferion y myfyrwyr cyn buddsoddi i fod yn bresennol yno. Mae lle wedi'i neilltuo ar ein cyfer a bydd unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

8. Adroddiad Gwsanaethau Aelodaeth

Crynhodd AM ei arolwg a gyflwynwyd yn flaenorol. Eglurodd AM, er i'r Rugby 7 bob ochr fod yn lwyddiant ysgubol, maent yn edrych i'w newid i ddigwyddiad gŵyl 7 bob ochr er mwyn cynwys amrywiaeth ychwanegol o chwaraeon.

Roedd Swper PA yn noswaith arbennig, ond y flaenoriaeth nawr fydd lledaenu cyfranogiad y diwgwyddiad.

Llwyddodd Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr i dderbyn cyfradd ymateb o 63.7% a chodi £1425 ar gyfer Cronfa Caledi Myfyrwyr.

Roedd y Noson Wobrwyo Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn noson wych ac fe gynhyrchiwyd adroddiad gwerthuso er mwyn parahu i wella ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cynrychiolaeth – mae gwaith i'w wneud gyda'r Swyddog Addysg nesaf, a staff perthnasol hefyd.

O ran Cyngor, mae gwaith wedi cychwyn ar gyfer recriwtio ail ymgynghorydd gyda'r gobaiith y byddai rhywun yn cychwyn yn y swydd erbyn dechrau mis Medi.

Gofynnodd CT i Bwyllgor Gwaith UMCA gael cydnabyddiaeth yn yr adroddiad HEAR.

9. Calendr Cyfarfodydd y Dyfodol

Cyflwynodd JG galendr busnes i'r Bwrdd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn cynorthwyo â rhoi strwythr i'r cyfarfodydd. Cymeradwywyd y calendr yn amodol bod y Cynllun Etholiadol yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd

10. Cytundebau Cyflogaeth Swyddog Ymddiriedolwyr

Gadawodd LD, MI a GB yr ystafell tra bod y cytundeb yn cael ei drafod.

Cymeradwywyd Cytundebau Cyflogaeth gan y Bwrdd

11. Apwyntiadau – Pwyllgor Apwyntiadau a Chydnabyddiaeth

Eglurodd JG bod y Pwyllgor uchod angen bodoli fel rhan o'r is-ddeddf. Mae cydnabyddiaeth yn hanfodol ar gyfer cyflogau Swyddogion ac mae'r Pwyllgor Apwyntiadau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer trefnu apwyntiadau Ymddiriedolwyr Allanol.

Cytunwyd bod JJ (Ymddiriedolwr Israddedig) am eistedd ar y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a bod Swyddog am eistedd ar y Pwyllgor Apwyntiadau a fyddai'n cael ei bendefynu yn nes at yr adeg yn dibynnu ar bwy sydd ar gael.

12. U.F.A

Darparodd SH gynnig i'r Bwrdd gan Crowe Clark Whitehill sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau Archwiliad ar gyfer Undbedau Myfyrwyr. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y gwasanaethau presennol sydd gennym gydag KPMG a pha fuddiannau fydd i'w cael o symud at yr Archwilydd arfaethedig. Cytunwyd bod SH am ymchwilio ynglŷn â symud at Archwilydd gwahanol.

Cytunwyd gan y Bwrdd

13. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

Byddai AE yn anfon fersiwn diwygiedig o'r Calendr Busnes.

Gweithredu - AE